Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol

Cyfarfod Cyntaf 2019

13 Mawrth 2019

12 – 1.30pm

Ystafell Gynadledda A, Tŷ Hywel

Cofnodion

**Yn bresennol**

Dr Dai Lloyd AC, Cadeirydd

**Yn cyflwyno:**

Ian Rees Jones, Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru (WISERD)

Michaela James, Prifysgol Abertawe

Emma Henwood, BHF Cymru

Adam Fletcher, BHF Cymru

Alice Taylor, WISERD

Dr Kate Shires, Rheolwr Banc Biolegol, Prifysgol Caerdydd

Katie Chapelle, Pennaeth Cyfathrebu a Dylanwadu, Y Gymdeithas Strôc

Huw Owen, Cymdeithas Clefyd Alzheimer Cymru

Lynne Davies, CRUK

Mark Briggs, Gwasanaeth Gwaed Cymru

Gethin Jones, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant

Rhian Thomas-Turner, Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru, Ysbyty Athrofaol Cymru

Lowri Jackson, Coleg Brenhinol y Meddygon

Dr Rachel Adams, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Nigel Rees, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Dr Richard Greville, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain

Alexander Smith, Cymrawd Ôl-raddedig, Y Gymdeithas Strôc

Dr Catrin Middleton, Pennaeth Rhaglen, Strategaeth Genomeg ar gyfer Meddygaeth Fanwl

**Ymddiheuriadau**

Christopher Fegan

Cari-Anne Quinn, Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Yr Athro Alan Williams, Prifysgol Abertawe

Dr Chris George, Prifysgol Abertawe

Joanne Ferris, Cymdeithas Diwydiant Fferyllol Prydain

Lee Campbell, Ymchwil Canser Cymru

Martin Fidler-Jones, Gofal Canser Tenovus

Ed Bridges, Prifysgol Caerdydd

Andy Glyde, CRUK

Kielan Arblaster, The Brain Tumour Charity

1. Croeso a chyflwyniad y Cadeirydd

Dechreuodd Dr Dai Lloyd AC y cyfarfod ac esboniodd Emma Henwood fod problemau TG yn yr ystafell gyfarfod ac felly y byddai'r cyflwyniadau'n cael eu rhannu ar ôl y cyfarfod.

2. Astudiaeth IDEAL

Nododd Ian Rees Jones (IRJ) fod yr astudiaeth wedi dechrau ym Mhrifysgol Bangor, ond ei bod bellach yn cael ei harwain o Brifysgol Caerwysg. Mae'n cael ei ariannu'n rhannol gan Gymdeithas Alzheimer’s. Mae'r prosiect yn un ansoddol sy'n edrych ar bobl y mae dementia’n effeithio arnynt, yn ogystal â'u gofalwyr.

Dywedodd Dr Rees Jones y gallai diagnosis yng Nghymru fod yn llai nag yng ngwledydd eraill y DU yn yr astudiaeth, oherwydd demograffeg neu wledigrwydd Cymru.

Maent yn mesur sut i fyw'n dda gyda'r cyflwr, gan ddefnyddio holiaduron a chanfyddiadau o beth mae byw'n dda’n ei olygu. Maent yn edrych ar iechyd seicolegol a chorfforol. Mae grŵp Caerdydd wedi gweithio mewn dull cyd-gynhyrchiol ac wedi defnyddio dau gyfweliad ansoddol dros ddau bwynt amser. Mae WISERD hefyd yn mesur cyfnodau o drawsnewid megis symud i gartrefi gofal ac ati.

**Cwestiynau**

- Gofynnodd Dr Rachel Adams am wledigrwydd a pha effaith y mae wedi'i chael.

Siaradodd IRJ am y ffactorau amgylcheddol a'r agosrwydd at fannau gwyrdd a'r gallu i'w defnyddio.

- Gofynnodd Katie Chapelle sut mae pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig wedi’u recriwtio i'r astudiaeth.

Dywedodd IRJ fod yn rhaid iddynt feddwl yn greadigol a rhoi cynnig ar bopeth a allai helpu i ymgysylltu â chymunedau gwahanol.

- Gofynnodd Dr Dai Lloyd a oedd canlyniadau interim, a hefyd am y Gymraeg ac a oedd ffactorau diogelu yn y rhai a oedd yn ddwyieithog. Dywedodd IRJ y cafwyd canfyddiadau cychwynnol, ond nad oedd dim byd wedi'i gyhoeddi eto.
- Gofynnodd Dr Catrin Middleton am y lefelau a'r mynediad at wasanaethau sydd ar gael a allai helpu cynllunwyr gwasanaeth i wneud penderfyniadau am ddarparu gwasanaethau. Soniodd IRJ am adroddiadau interim yn cael eu defnyddio i helpu i lywio blaenoriaethau polisi a chodi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n gysylltiedig â byw gyda'r cyflwr.

3. <u>Prosiect ACTIVE</u>

Tynnodd Michaela James (MJ) sylw at brosiect ACTIVE, a oedd yn cynnwys 90 o bobl ifanc yn eu harddegau mewn saith ardal ddifreintiedig yn Abertawe, ac a luniwyd ar y cyd â'r cyfranogwyr.

Rhoddodd y prosiect dalebau gwerth £20 y mis i fyfyrwyr Blwyddyn 9 i'w gwario ar unrhyw weithgaredd i geisio cynyddu gweithgarwch corfforol a deall pam mae gweithgarwch corfforol yn gostwng ar yr oedran hwn.

Canfu'r astudiaeth fod y cyfranogwyr yn gwybod y dylent fod yn egnïol, ond eu bod yn teimlo'n rhwystredig oherwydd chwaraeon ffurfiol a gwersi a beth oedd ar gael y tu allan i'r ysgol. Yn yr ysgolion lle cyflwynwyd y talebau, gostyngwyd y dirywiad corfforol o'u cymharu â'r ysgolion rheoli.

Edrychodd y tîm ar bethau fel pwysedd gwaed, lle roedd 16 y cant o blant ysgol eisoes yn dangos bod ganddynt bwysedd gwaed uchel, a gafodd ei leihau gan y prosiect. Hefyd, canfuwyd bod ysgol fwy difreintiedig, nid cartref yn cael mwy o effaith.

**Cwestiynau**

- Gofynnodd Gethin Jones a oeddent wedi edrych ar BMI.

Atebodd MJ nad oeddent wedi gwneud hynny yn yr astudiaeth hon, gan eu bod yn edrych ar iechyd y galon, ond y bydd cam nesaf y prosiect yn ceisio datblygu'r meysydd y maent yn edrych arnynt.

- Gofynnodd Mark Briggs a oedd astudiaethau blaenorol yn cyd-fynd â'u canfyddiadau; h.y., a yw pobl yn eu harddegau'n debyg i genedlaethau blaenorol o ran peidio â hoffi addysg gorfforol?

Dywedodd MJ fod yr un mathau o faterion wedi codi yn eu hastudiaeth nhw, a bod angen newid diwylliant o ran addysg gorfforol ac nad dim ond chwaraeon elitaidd sy'n bwysig.

- Gofynnodd RA am iechyd, maeth ac ymarfer corff fel rhan o gyrsiau TAR.

Cytunodd MJ, gan ddweud gorau po fwyaf o ran yr hyn y gellir ei sefydlu.

- Siaradodd DL am yr adroddiad ffitrwydd corfforol a drafodir yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar hyn o bryd ac y dylai'r grŵp anfon y dystiolaeth fideo gan y cyfranogwyr at y pwyllgor.

**4. Diweddariad gan yr is-grŵp ar y gweithlu ymchwil feddygol**

Diweddarodd Lowri Jackson ar gam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol ynglŷn â'r gweithlu meddygol ac amser ymchwil wedi'i ddiogelu. Tynnodd sylw at y themâu allweddol a nodwyd, sef:

- **Bwlch sgiliau -** Mae bwlch sgiliau cynyddol ledled y DU a Chymru mewn pynciau STEM, gan gynnwys ymchwil feddygol - pam?
- **Arweinyddiaeth genedlaethol** – i ba faes mae'r gweithlu ymchwil yn perthyn: iechyd, addysg neu'r economi?
- **Cyllid ymchwil -** Bydd arian yn seiliedig ar weithgareddau'n cael ei ddisodli gan system sy'n seiliedig ar werthoedd; ni all rhai rhannau o'r sector greu digon o incwm i fod yn gynaliadwy
- **Amser wedi'i ddiogelu** -Yn aml, mae'n rhaid i glinigwyr wneud ymchwil o gwmpas gweddill eu swydd. Mae amser yn tueddu i gael ei ddyrannu i ymchwilwyr sefydledig
- **Allgymorth cynnar -** Sut y gallwn ysbrydoli plant oedran ysgol i ystyried ymchwil feddygol fel opsiwn gyrfa? Sut y gallwn ddylanwadu arnynt i feddwl yn ehangach am hyn?
- **Newid arfer -** Mae llawer o ymchwil yn cael ei harwain gan brifysgolion; sut rydym yn trawsnewid hynny'n arfer clinigol ar gyfer y gweithlu rheng flaen?

Siaradodd LJ hefyd am y potensial i lywio blaenoriaethau cyn etholiad Cymru yn 2021.

### 5. Trafodaeth

Tynnodd EH sylw at y posibilrwydd o ran yr hyn y gellir defnyddio'r Grŵp Trawsbleidiol hwn i'w wneud, i helpu i gyfrannu at y materion ynghylch ymchwil feddygol ac ychwanegu at ganfyddiadau Adolygiad Reid.

- Dywedodd DL mai'r peth cyntaf y gallai'r grŵp ei wneud oedd ysgrifennu at y Llywodraeth i ofyn beth oedd wedi'i wneud hyd yn hyn i fwrw ymlaen ag argymhellion Adolygiad Reid. **CAM GWEITHREDU**
- Tynnodd IRJ sylw at broblem barhaus yn ymchwil feddygol: mae prosiectau'n cael eu hariannu am gyfnod byr yn unig, ac felly mae ymchwilwyr yn gyson yn chwilio am eu swydd nesaf.
- Dywedodd MB yr ystyrir bod y llwybr ymchwil a datblygu'n yrfa heb ddyfodol.
- Gofynnodd CM am gylch gorchwyl y grŵp hwn gan mai dyma'r tro cyntaf iddi fod yn bresennol. Dywedodd EH y byddai'n ei ddosbarthu eto. **CAM GWEITHREDU**
- Dywedodd CM hefyd nad oedd amser i nyrsys gymryd rhan mewn ymchwil.
- Dywedodd Rhian Thomas-Turner fod angen edrych ar rôl nyrsys plant
- Tynnodd Nigel Rees sylw at yr agenda ymchwil ac arloesi a bod 2-3 o bobl yn arwain, ond y gellid gwneud mwy
- Soniodd Huw Owen am yr anawsterau nad yw ymchwilwyr yn gallu ehangu eu hymchwil i garfanau eraill.

Daeth DL â'r drafodaeth i ben drwy fyfyrio mai'r peth cyntaf y gellid ei wneud oedd ysgrifennu at y Gweinidog a chael ymateb ar argymhellion Adolygiad Reid, ac yna edrych ar y camau nesaf.

Dywedodd EH fod y ddau gyfarfod nesaf wedi'u trefnu ar gyfer dydd Mercher 8 Mai a dydd Mercher 10 Gorffennaf am 12-1.30 p.m. a'r ddau yn Ystafell Gynadledda A.